At: Mr R Davies AC cc Prif Ysgrifennydd

Mr C Dafis AC Mr A Davies AC

Mr I W Jones AC Mr R Morgan AC

Ms K Williams AC Mrs R Butler AC

Mr W Graham AC Ms J Hutt AC

Ms S Essex AC Mr T Middlehurst AC

Ms C Gwyther AC

Mr P Law AC

Ysgrifennydd Parhaol

Mr G C G Craig

Mr D W Jones

Mr J W Lloyd

Cyfarwyddwyr Grp

Clercod y Pwyllgorau

Mr Gareth Thomas LGPF

Mr B J Mitchell

Mr L Conway

Ms M Knox

Mr M Quinn

Dr E Roberts

Mr M Chown

Ms J Jordan

Dr A Bold

Ms J Crowley

Oddi wrth: Edwina Hart AC

Ysgrifennydd Cyllid

Dyddiad: 23 Mehefin 1999

**CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB 2000-01 A 2001-02 i 2002-03**

**Cyflwyniad**

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 19.1, mae hwn yn wahoddiad ffurfiol i'ch Pwyllgor gyflwyno safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ariannol nesaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei dynnu at sylw eich Pwyllgor.

**Mannau Cychwyn**

2. Er mwyn rhoi man cychwyn i chi, amgaeaf atodlen (BPR1) sy'n nodi'r cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a chynlluniau cyllidol amcanol ar gyfer 2000-01 a 2001-02, i raglenni sy'n dod o dan gyfrifoldeb eich pwyllgor. Cyhoeddwyd y cyllidebau hyn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 14 Rhagfyr 1998. Mae man cychwyn 2002-03 yn gynwysiedig hefyd – man cychwyn ar gyfer 2001-02 ydyw, wedi'i ddwyn ymlaen; gan na chaiff cyllideb Cymru ar gyfer 2002-03 ei phennu nes yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gynhelir yn 2000, dylid trin y man cychwyn hwn fel un darluniadol yn unig. Mae'r rhain yn darparu man cychwyn ar gyfer y Cylch Cynllunio Cyllideb hwn.

3. Er gwybodaeth, amgaeir mannau cychwyn ar gyfer cyllidebau eraill y Cynulliad.

**Y Sefyllfa Ariannol**

4. Hoffwn dynnu sylw eich Pwyllgor at y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cynulliad:

- pan gyhoeddodd y Llywodraeth ddyraniadau ei Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yng Ngorffennaf 1998, gwnaeth yn glir ei bod yn gosod cynlluniau cadarn ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ers hynny mae’r Llywodraeth wedi nodi y caiff cyllideb 2001-02 (hy y drydedd flwyddyn) ei hadolygu fel rhan o Adolygiad Gwariant 2000). Serch hynny bydd cyfanswm cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2000-01 yn dal i fod yn un sefydlog;

- mae’r ffaith fod fformwla Barnett yn arwain at ddod â gwariant y pen yng Nghymru a Lloegr ynghyd dros amser yn golygu na fydd y Cynulliad yn gallu darparu symiau cyfatebol i’r hyn a werir ar holl fentrau yn Lloegr – felly bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau;

- dyrannwyd pob man cychwyn; nid oes arian ‘wrth gefn’ cyffredinol ar gael y gellid ei ddefnyddio i chwyddo adnoddau rhaglenni;

- golyga hyn bod yn rhaid cyfateb unrhyw gynnydd yng nghyllidebau rhai rhaglenni gyda gostyngiadau mewn rhaglenni eraill neu drwy wrthbwyso arbedion. Byddwn felly yn gofyn i bwyllgorau werthuso eu rhaglenni yn feirniadol ac os ydynt am roi mwy o flaenoriaeth i rai rhaglenni yna rhaid rhoi llai o flaenoriaeth i raglenni eraill.

**Safbwyntiau**

5. Wrth gyflwyno safbwyntiau, byddai’n ddefnyddiol pe bai pob pwyllgor yn nodi beth yw eu blaenoriaethau, sut mae’r blaenoriaethau hynny yn cyfrannu at y gwerthoedd a’r blaenoriaethau a nodwyd gan y Prif Ysgrifennydd yn ei araith ar ‘Gyflwr y Genedl’ (a atodir yn Atodiad A) ac (os yw’r pwyllgor o’r farn bod angen newid y dyraniadau ariannol i gyflawni’r blaenoriaethau hyn), pa newidiadau fyddai’r pwyllgor yn eu hargymell.

6. Mae’r Prif Ysgrifennydd hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd datblygu rhaglenni sy’n torri ar draws ffiniau swyddogaethol, er mwyn gwella effeithiolrwydd y mecanweithiau darparu. Byddai’n ddefnyddiol pe bai pob Pwyllgor yn edrych ar oblygiadau ei waith mewn meysydd cysylltiedig er mwyn gweld a oes angen gwella trefniadau gweithio, a hefyd gwella cysylltiadau â chyrff eraill.

**Ymgynghori Helaethach**

7. Fel y gall eich pwyllgor ystyried pob agwedd o’r gyllideb, bydd yn rhaid iddo ymgynghori â’r Cyrff Cyhoeddus perthnasol a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Bydd yn rhaid iddynt gyflwyno eu safbwyntiau fel y gall y Pwyllgor roi ystyriaeth iddynt wrth ystyried ei flaenoriaethau cyffredinol.

8. Yr arfer yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw ymgynghori â’r cyhoedd a chyrff eraill sydd â diddordeb yn y blaenoriaethau ar gyfer dyrannu cyllideb Cymru. Mae Cabinet y Cynulliad wedi

penderfynu parhau â’r arfer hon a bydd yn cyhoeddi papur ymgynghorol cyn hir. Caiff yr ymatebion eu trosglwyddo i’r pwyllgorau pwnc yn ôl y gofyn er mwyn iddynt roi ystyriaeth i’r sylwadau wrth iddynt lunio eu barn.

**Ymatebion**

**9. Dylid cyflwyno safbwyntiau eich Pwyllgor i’r Ysgrifennydd Cynulliad priodol heb fod yn hwyrach na:**

**17 Medi ar gyfer y Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth;**

**24 Medi ar gyfer Datblygu Economaidd, Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac Addysg cyn 16 oed.**

**Amserlen**

10. Amgaeaf amserlen o rownd y gyllideb yn Atodiad B er eich gwybodaeth.

**Edwina Hart**